# Llesiant a chydraddoldeb

## Cyflwyniad

Mae'n ofynnol i fyrddau gwasanaethau cyhoeddus asesu llesiant pobl eu hardaloedd bob pum mlynedd, yn unol â chylchoedd etholiadau lleol. Gofynnwyd i Ganolfan Polisïau Cyhoeddus Cymru eu helpu trwy lunio dogfennau hysbysu am dueddiadau ledled y wlad a thystiolaeth yn y meysydd canlynol:

- llesiant a chydraddoldeb;
- effaith COVID-19 a gadael Undeb Ewrop ar lesiant;
- llesiant diwylliannol.

Mae'r papur hwn yn crynhoi canfyddiadau'r ganolfan ynghylch llesiant a chydraddoldeb.


> **Dylid cymryd camau a fydd o gymorth i bobl isel eu llesiant**

## Cysylltiad cydraddoldeb a llesiant

Mae nifer o ffactorau'n gysylltiedig â llesiant is neu uwch. Mae dwy ffordd o ddisgrifio’r modd mae llesiant a chydraddoldeb yn gysylltiedig:


1. Trwy ystyried anghydraddoldeb yng nghyd-destun llesiant goddrychol (sut mae llesiant goddrychol yn amrywio ymhlith unigolion, carfanau, ardaloedd ac ati).
2. Trwy ystyried anghydraddoldeb yn y ffactorau sy’n sbarduno llesiant (er enghraifft, ffactorau megis diweithdra, iechyd y corff ac ati a fydd yn effeithio’n fwy ar rai carfanau nag ar eraill).

Mae crynodeb o’r ffactorau sy’n effeithio fwyaf ar lesiant, yn ôl tystiolaeth berthnasol, yn Ffigur 1.




*Ffigur 1: Crynodeb o ffactorau pwysig o ran llesiant*

Mae dwy ffordd o fesur anghydraddoldeb yn y deilliannau sy'n ymwneud â llesiant: cymharu llesiant amryw garfanau neu gymharu llesiant amryw bobl mewn carfan - Ffigur 2.




*Ffigur 2: Dulliau mesur anghydraddoldeb o ran llesiant*

Er bod trafodaethau am anghydraddoldeb wedi tueddu i ganolbwyntio ar incwm a chyfoeth, mae mwy a mwy o awdurdodau lleol a chyrff eraill o'r farn bod llesiant goddrychol yn ffordd bwysig o fesur anghydraddoldeb, hefyd. Trwy ganolbwyntio ar anghydraddoldeb o ran llesiant (*dosbarthiad* llesiant mewn ardal yn hytrach na'r cyfartaledd), mae modd mesur llesiant yn fwy cywir ar draws poblogaeth benodol. At hynny, mae modd nodi pobl isel eu llesiant a chymryd camau ar eu cyfer.

Mae data am faint o lesiant ar gyfartaledd a faint o anghydraddoldeb sydd ar draws awdurdodau lleol yn dangos bod llesiant ar gyfartaledd ac anghydraddoldeb o ran llesiant yn gysylltiedig am fod tuedd i ragor o anghydraddoldeb fod mewn ardaloedd is eu llesiant ar gyfartaledd. Mae eithriadau, fodd bynnag: Er enghraifft, er bod llesiant pobl Ynys Môn ar gyfartaledd yn uwch na phob ardal arall, roedd y sir yn ddeuddegfed o ran anghydraddoldeb. Ar y llaw arall, er mai'r ardal fwyaf cyfartal ond dau oedd Gwynedd, roedd yng nghanol y rhestr o ran llesiant ar gyfartaledd.

## Felly, fydd perthynas llesiant ar gyfartaledd ag anghydraddoldeb o ran llesiant ddim yn gyson bob amser.

### Deilliannau gwahanol o ran llesiant

Mae fersiwn gyflawn y papur hwn yn ystyried deilliannau gwahanol i unigolion yn y pum carfan ganlynol:

1. Pobl sy'n cael eu hystyried yn rhai sydd o dan anfantais neu'n agored i niwed.
2. Pobl mae nodwedd warchodedig gyda nhw yn ôl Deddf Cydraddoldeb 2010.
3. Plant o dan 18 oed.
4. Plant a phobl ifanc sydd neu a fu o dan ofal.
5. Pobl mae angen gofal neu gymorth arnyn nhw, a'r rhai sy'n gofalu amdanyn nhw.

Mae'r canfyddiadau ynghylch pob carfan yn dangos sut y gall deilliannau llesiant amrywio ymhlith carfanau. Dylid cofio y bydd yr elfennau hynny'n gorgyffwrdd yn aml ac y bydd pobl yn ymwneud â mwy nag un categori o ganlyniad.

Yn ôl ei data am lesiant, mae Swyddfa'r Ystadegau Gwladol wedi nodi wyth carfan sydd yn y perygl mwyaf o ran llesiant personol gwael. Dyma'r tri grŵp uchaf eu tebygolrwydd:

- pobl ddi-waith neu segur, mewn cartrefi ar osod, sy'n honni bod afiechyd neu anabledd gyda nhw;
- pobl gyflogedig, mewn cartrefi ar osod, sy'n honni bod afiechyd neu anabledd gyda nhw;
- perchnogion cartrefi, wedi ymddeol, sy'n honni bod afiechyd neu anabledd gyda nhw.

Mae'r canlyniadau'n dangos bod hunaniaethau gorymylol a ffactorau ac amgylchiadau amrywiol yn cydgyfarfod i effeithio ar lesiant, yn ogystal â ffactorau unigol a allai gryfhau neu wanhau gwytnwch unigolyn neu ei allu i ymaddasu yn ôl amgylchiadau cyfnewidiol. Felly mae'n bwysig osgoi gorsymleiddio wrth ystyried llesiant ar

draws amryw garfanau mewn ardal neu ymhlith gwahanol ardaloedd.

## Prinder tystiolaeth, ansicrwydd a meysydd i'w harchwilio

Wrth asesu sefyllfaoedd a pharatoi cynlluniau, dylai byrddau gwasanaethau cyhoeddus gofio bod y dystiolaeth am gydraddoldeb a llesiant yn brin neu'n annigonol mewn amryw ffyrdd. Gan gynnwys:

- Tueddiadau'r maes hwn yn y dyfodol ac effaith pandemig Coronavirus.
- Prinder data sy'n nodi ffactorau cydraddoldeb yn ôl rhyw, tras, anabledd ac ati yn ardal pob awdurdod lleol.
- Gofalu bod canfyddiadau lefel uchel yn cael eu dadansoddi'n effeithiol a'u rhoi ar waith.

## Y camau nesaf i fyrddau gwasanaethau cyhoeddus

Argymhellwn ni y dylai byrddau gwasanaethau cyhoeddus gymryd y camau canlynol:

- Nodi lle y gall byrddau gymryd camau er llesiant mewn bröydd penodol fel y bydd modd helpu'r rhai isaf eu llesiant personol ac y bydd camau o'r fath yn fwyaf effeithiol.
- Defnyddio tystiolaeth sy'n dangos pa gamau fydd y mwyaf llwyddiannus a pha ffyrdd o'u cymryd fydd orau.
- Asesu a monitro'r cynnydd i ofalu bod camau'n cyflawni eu nodau a'u bod yn effeithiol ynghylch gwella byd y rhai is eu llesiant a lleddfu anghydraddoldeb yn y fro o ran llesiant.

## Rhagor o wybodaeth

Am yr adroddiad cyflawn, gweler Roberts, M. (2021). **Llesiant a chydraddoldeb - WCPP Papur hysbysu tystiolaeth.** Caerdydd: Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

## Ynglŷn â Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Yma yn y Ganolfan, rydym yn cydweithio gydag arbenigwyr polisi blaenllaw er mwyn darparu tystiolaeth o ansawdd uchel a chyngor annibynnol i weinidogion, y gwasanaeth sifil a gwasanaethau cyhoeddus Cymru sydd yn eu helpu i wella penderfyniadau polisi a deilliannau.

Mae'r Ganolfan, sydd wedi ei hariannu gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol a Llywodraeth Cymru, wedi ei lleoli ym Mhrifysgol Caerdydd ac mae'n rhan o Rwydwaith Beth Sy'n Gweithio y DU.

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â:

**Manon Roberts**

+44 (0)29 2087 5345

manon.roberts@wcpp.org.uk

**Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru**

Prifysgol Caerdydd, 10/12 Plas yr Amgueddfa, Caerdydd, CF10 3BG

www.wcpp.org.uk/cy | 029 2087 5345

info@wcpp.org.uk | @WCfPP

Cardiff University / Prifysgol Caerdydd

Economic and Social Research Council

Llywodraeth Cymru / Welsh Government